

Tasg 2

(Estynnol, sbardun 1)

Gwaith llafar - Gwaith i grwpiau o dri neu bedwar

Disgybl 1

Mae un ohonoch chi'n gwneud cais am y gwaith hwn.

Gwnewch nodiadau i ddangos pam rydych chi'n meddwl eich bod chi'n addas ar gyfer y gwaith, e.e.

- pa fath o berson ydych chi – dewr, cryf, anturus, heini ac ati. Ydych chi'n gallu bod yn dawel hefyd?
- eich sgiliau – sgiliau gweithio mewn tîm, sgiliau gweithio'n annibynnol, sgiliau datrys problemau ac ati
- eich profiad chi o ofalu am / gweithio gydag anifeiliaid
- Bydd rhaid i chi sôn am eich cefndir chi hefyd, e.e. ble rydych chi'n byw, addysg, diddordebau ac ati.

Disgyblion 2-4

Mae tri ohonoch chi'n aelodau o'r panel sy'n mynd i gyfweld Disgybl 1.

Paratowch gwestiynau da.

Gofynnwch am:

- gefndir y person, e.e. ble mae'n byw, addysg, diddordebau
- pa fath o berson ydy e / hi
- sgiliau
- profiad o ofalu am / gweithio gydag anifeiliaid
- pam mae'n meddwl ei fod / bod yn addas ar gyfer y gwaith
- pryd mae'n gallu dechrau (os yw'n addas).

Gwaith llafar: gwaith dosbarth

Rhaid i un aelod o bob panel sôn am y person maen nhw wedi ei gyfweld.

Rhaid i bawb wrando'n ofalus a gofyn unrhyw gwestiynau ychwanegol os oes angen.

Rhaid i bawb bleidleisio er mwyn penderfynu ar un person o'r dosbarth fyddai'n addas ar gyfer gwneud y gwaith hwn.